ASTUDIAETH ACHOS

Anneka Thomas
Peirianneg Sifil

Tra oedd hi'n astudio ar gyfer ei Lefelau A yn ysgol St John yn Aberdâr, darganfu Anneka ddiddordeb mewn mathemateg a dylunio ac arweiniodd hyn at astudio Peirianneg Sifil ym Mhrifysgol Abertawe. Fel rhan o'i hastudiaethau, penderfynodd Anneka gymryd blwyddyn allan i gael profiad ymarferol i gefnogi ei gradd ac ymgymerodd â lleoliad gydag Interserve am flwyddyn

Dwi'n credu'n gryf ei bod yn bwysig bod mwy o fenywod yn ymgymryd â rolau ym maes adeiladu. Hoffwn i petai mwy o ferched yn rhoi cynnig arni. Nid yw'n anoddach i ni wneud y swyddi hyn nag ydyw i ddynion!

ASTUDIAETH ACHOS

Liam Baker
Prentis Gwaith Coed

Roeddwn i wedi bod yn gweithio fel labrwr gyda seiri coed ers rhai blynyddoedd ac mae fy nhad yn saer coed hefyd, felly meddyliais i y byddwn yn dilyn yn ôl ei droed e. Mae cael crefft yn golygu y bydd gen i waith bob amser.

Dwi wedi dysgu llawer o fod ar y brentisiaeth hefyd, fel sut i amldasgio a gwella fy sgiliau ymarferol a sgiliau cyfathrebu. Byddwn i'n dweud wrth unrhyw un sy'n ystyried prentisiaeth i fynd amdani!

ASTUDIAETH ACHOS

Ted Barnaby
Prentis Paentio ac Addurno

Bydd fy mhrentisiaeth yn fy helpu i gymhwyso'n llawn, ac yna galla i ddechrau fy musnes fy hun. Dwi'n edrych ymlaen at fod yn fòs arnaf fi fy hun ac arwain fy nhîm fy hun un diwrnod.

Roeddwn i'n meddwl fy mod i'n gwybod llawer am baentio ac addurno cyn i mi ddechrau fy mhrentisiaeth, ond ers imi fod ar y safle dwi wedi dysgu nad oeddwn i'n gwybod llawer mewn gwirionedd! Ymhlith y sgiliau dwi wedi'u datblygu mae cydsymud y llaw a'r llygad, a thechneg gyflymach a mwy manwl gywir. Mae Paentwyr ac Addurnwyr yn bwysig yn y diwydiant adeiladu gan mai ni sy'n darparu'r manylder yn y datblygiad sy'n gwneud i'r adeiladau edrych yn neis - sef yr hyn y mae'r cwsmer ei eisiau.

ASTUDIAETH ACHOS

Charlotte Price
Prentis Mesur Meintiau

Roeddwn i eisiau gwneud prentisiaeth oherwydd y byddai'n rhoi cyfle i mi fod ar y safle ac rwy'n naturiol yn dysgu'n llawer haws gyda phrofiad ymarferol.

Dwi wedi dysgu cymaint. Yn gynnar yn y cwrs, cefais ddysgu llawer o'r sgiliau hanfodol sydd eu hangen ar syrfewyr meintiau - yn enwedig cyfathrebu, gwaith tîm a llawer o fathemateg! Roedd hon yn sylfaen wirioneddol dda ar gyfer gweddill fy mhrentisiaeth ac mae'n fy helpu pan fydda i'n gweithio ar lawer o wahanol brosiectau. Mae'n wych gwybod hefyd bod arbenigwr gerllaw i helpu bob amser os oes unrhyw beth nad ydw i'n ei wybod.

Diolch i'n rhanddeiliaid, Y Prentis.